CYT 05/04 Tachwedd 2004

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Crynodeb Ymchwil Tai

## Hanesion Tai Pobl sydd wedi cael Profiad o Ddigartrefedd

### Cyflwyniad

Yn 2003 cafodd Prifysgol Morgannwg, Shelter Cymru a Caer Las Cymru eu comisiynu i gynnal adolygiad o hanesion tai pobl oedd wedi symud allan o sefyllfa o fod yn ddigartref yn llwyddiannus.  Pwrpas yr astudiaeth oedd nodi ffactorau oedd wedi arwain at ddatrys problemau digartrefedd yn llwyddiannus.

Mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn dod yn bennaf o ddadansoddi 30 cyfweliad treiddiol gyda phobl o wahanol rannau o Gymru, yn ddynion a menywod, y cyfan rhwng 18 a 65 mlwydd oed.  Roedd y cyfranogwyr hyn wedi defnyddio gwasanaethau digartrefedd yn y gorffennol, ond adeg y cyfweliad, roeddent wedi bod yn byw'n annibynnol heb gefnogaeth am 12 mis neu ragor.

Cynhaliodd y tîm aml-asiantaeth y cyfweliadau a gwneud y dadansoddi, gyda'r nod o gofnodi profiadau defnyddwyr gwasanaethau digartrefedd ac i ymchwilio'r ffactorau sy'n helpu i gyrraedd sefyllfa dai wedi setlo.

### Canfyddiadau

*Gwybodaeth a gweithio mewn Partneriaeth*

- Darparu cyngor a gwybodaeth o ansawdd da oedd un ymyriad fu'n hanfodol wrth atal a datrys sefyllfaoedd digartref.  Gallai diffyg gwybodaeth am dai ac am hawliau, yn ogystal ag anwybodaeth parthed gwasanaethau, arwain at ddigartrefedd neu ei ymestyn.

- Amlygodd hanesion y cyfranogwyr y ffyrdd yr oedd gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo. Yn ddiddorol, roedd nifer o'r cyfranogwyr wedi cael gwybodaeth hanfodol 'ar hap'. Roeddent yn fwy tebygol o weithredu yn sgil gwybodaeth pan fyddai honno'n cael ei darparu gan ffrindiau neu ffynonellau yr oeddent yn ymddiried ynddynt.  Roedd pobl yn mynd at weithwyr y rheng flaen, megis yr Heddlu, Meddygon Teulu a chyfreithwyr, yn aml a gallai'r rhain ddarparu gwybodaeth yn ogystal â chyfeirio ymlaen at wasanaethau hysbys eraill.  Roedd cael eu rhyddhau o sefydliadau, megis ysbytai neu o garchar, yn achlysuron lle dylid darparu gwybodaeth.

*Beth yw cartref?*

- Nododd y cyfranogwyr mai llwyddo i gael llety priodol a chreu 'cartref' oedd ffactor sylweddol wrth ddatrys eu digartrefedd. Ym mhob achos bron iawn, cafwyd mynediad at lety drwy gyfrwng asiantaeth gefnogi oedd hefyd yn darparu cefnogaeth denantiaeth. Amlygodd cyfranogwyr sut yr oedd cael 'cartref' yn darparu sefydlogrwydd a diogelwch, oedd yn galluogi pobl i ddelio gyda materion eraill megis iechyd neu gyflogaeth.

*Polisïau ac arferion tai*

- Roedd mwyafrif y cyfranogwyr, adeg yr ymchwil, yn denantiaid Awdurdodau Lleol neu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC). Adroddodd traean ohonynt am brofiadau arferion tai, yn cynnwys cael dyrannu eiddo mewn ardal o'u dewis hwy. Er hynny, amlygodd rhai hanesion effaith tai o ansawdd gwael neu dai anaddas, megis dyrannu i ardal lle teimlai'r cyfranogwr neu ei d/theulu yn anniogel. Chafodd darparu gwybodaeth wael ei godi hefyd. Roedd arferion a methiannau fel hyn wedi achosi straen oedd yn gwaethygu sefyllfa o ddigartrefedd. I'r gwrthwyneb, gall arfer tai da atal argyfyngau rhag datblygu a gallant ddatblygu tuag at ddatrys sefyllfaoedd o ddigartrefedd.

- Mae symudiadau daearyddol yn ffactor, yn enwedig i fenywod sy'n ffoi rhag trais yn y cartref, ond i bobl eraill hefyd sy'n symud er mwyn cael mynediad at wasanaethau. Roedd dros hanner y cyfranogwyr wedi symud o rannau eraill o'r DU neu o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Mae gan hyn oblygiadau mewn perthynas â gweithio ar y cyd a chyllido ar draws ffiniau gweinyddol.

*Llety Dros Dro – hosteli a llochesau*

- Roedd hanner y cyfranogwyr wedi defnyddio hosteli neu lochesau menywod ar eu trywydd drwy ddigartrefedd, a siaradodd rhai ohonynt am eu profiadau. Nododd nifer o'r hanesion beryglon hosteli mwy. Pwysleisiwyd pwysigrwydd llety a chefnogaeth symud-ymlaen pan fydd pobl yn barod i symud o lety dros dro.

- Cafwyd nifer o awgrymiadau gan gyfranogwyr benywaidd ar gyfer gwella llety llochesau. Ymysg y rhain oedd sefydlu mwy o wasanaethau arbenigol, cynyddu lefelau cefnogaeth a darparu rhagor o wybodaeth am yr ardal leol. Mae gan bob un o'r rhain oblygiadau cyllido.

- I nifer o gyfranogwyr, roedd unedau preswyl arbenigol – ar gyfer dadwenwyno a darparu gwasanaethau iechyd meddwl – wedi bod yn hanfodol wrth ddatrys materion iechyd a hefyd wrth gyfeirio'r person ymlaen at gynlluniau tai a chefnogaeth.

*Arwyddocâd cefnogaeth*

- Nodwyd gwaith cefnogi gan y cyfranogwyr fel yr ymyriad mwyaf arwyddocaol wrth ddatrys digartrefedd wrth helpu pobl i ailsefydlu mewn llety annibynnol a datblygu cysylltiadau o fewn y gymuned. Gwahaniaethodd yr ymchwilwyr rhwng y mathau canlynol o gefnogaeth:

  1. Rhoi gwybodaeth.
  2. Cymorth wrth gael mynediad at lety.
  3. Cefnogaeth ymarferol gyda materion megis tenantiaethau newydd a budd-daliadau lles.
  4. Cymorth gydag integreiddio i'r gymuned, cysylltiadau gyda sefydliadau a gwasanaethau.
  5. Darparu gwasanaethau cymdeithasol ac emosiynol all fod yn gyffredinol a/neu'n arbenigol.

- Drwyddi draw, roedd hanner y cyfranogwyr wedi cael profiad o gefnogaeth gymdeithasol gyffredinol. Dangosodd nifer o esiamplau bwysigrwydd gweithwyr cefnogi wrth

ddatblygu hunan-barch a hyder, a galluogi pobl i gymryd rheolaeth dros eu sefyllfa. Yn yr astudiaeth hon, roedd yr angen am gefnogaeth gyda phroblemau iechyd ac ariannol yn llai amlwg na'r angen am gefnogaeth ar lefel gyffredinol. Cyfeiriodd tua thraean o'r cyfranogwyr at bwysigrwydd y cymorth gafodd ei ddarparu gan ffrindiau neu berthnasau.

- Dangosodd yr hanesion fod rhaid i gefnogaeth fod yn berson-ganolog, yn hyblyg a heb gael eu cyfyngu gan amser. Y ffordd orau i gyflwyno cefnogaeth effeithiol, yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn, yw ar ôl gwneud asesiad cynhwysfawr o anghenion. Manteisiodd y cyfranogwyr yn yr astudiaeth yn arbennig yn sgil cefnogaeth gymdeithasol gyffredinol, a gynyddodd eu hunan-barch ac a gafodd ei gyflwyno gan weithwyr gafodd eu disgrifio'n aml fel 'ffrindiau'. Mae hyn yn disgrifio dull o weithio sydd yn hygyrch, yn gyfeillgar a heb fod yn barnu, tra'n parchu'r ffiniau proffesiynol priodol. Amlygodd yr astudiaeth fod angen i'r person fod yn rheoli'r sefyllfa gan deimlo fod y gefnogaeth yn cael ei deilwra'n benodol i'w ofynion personol.

*Mynd yn ôl i weithio*

- Roedd chwech o'r cyfranogwyr yn gweithio, y rhan fwyaf ohonynt yn gweithio rhan-amser. Roedd tair menyw'n gwneud gwaith gwirfoddol a dwy yn mynychu cyrsiau coleg. O'r pedwar ar bymtheg nad oeddent yn gweithio, nid oedd naw ohonynt ar gael i weithio oherwydd eu hoedran, neu anabledd neu'r ffaith eu bod yn gofalu am blant dan oed ysgol. Pwysleisiodd y rhai oedd mewn cyflogaeth neu'n dilyn cwrs addysgol ei bwysigrwydd yn darparu cysylltiadau i mewn i fywyd prif-ffrwd ac wrth eu helpu i ymdopi â'u problemau a'u gorchfygu.

## Am yr astudiaeth

Yr hyn sy'n ddiddorol am yr astudiaeth hon yw'r casgliad o ddata ansoddol a'r modd y mae'n defnyddio hwn i ganiatáu i leisiau hysbyswyr strwythuro'r canlyniadau. Cafodd yr astudiaeth ei chynnal drwy gyfrwng model ymchwil gweithredol tair lefel. Ar y lefel gyntaf, casglwyd hanesion a straeon y deg cyfranogwr ar hugain. Ffurfioedd y hanesion hyn sylfaen ar gyfer y dadansoddi a'r adroddiad. Roedd fformat anstrwythuredig y cyfweliad yn caniatáu i'r cyfranogwr arwain y stori. Ar yr ail lefel, mewn wyth cyfarfod grŵp, bu'r pedwar ymchwilydd yn rhannu eu profiadau, eu dadansoddiadau o'r hanesion a'r straeon. Cafodd themâu cyffredin eu nodi a rhoddwyd pwysau ar y nifer o gyfranogwyr a fu'n eu trafod. Ar y trydydd lefel, bydd yr ymchwil hon yn cael ei rhannu gyda'r Cynulliad Cenedlaethol a gydag asiantaethau eraill er mwyn iddi allu cyfrannu tuag at wella polisïau ac at newidiadau ymarferol.

Mae'r materion oedd yn cael eu profi gan y cyfranogwyr yn adlewyrchu'r sefydliadau fu'n gyfrwng dod i gysylltiad â hwy, sef:

- llochesau menywod;
- asiantaeth gefnogi cyffuriau ac alcohol;
- prosiect Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) ar gyfer pobl ifanc;
- gwasanaeth cynghori ac eiriolaeth tai;
- asiantaethau tai a chefnogaeth; a
- hostel llety dros dro.

Perthynas yn chwalu - rhwng rhieni a phlant neu rhwng partneriaid - oedd prif achos digartrefedd cychwynnol. Soniodd traean o'r cyfranogwyr am broblemau a brofwyd ganddynt cyn iddynt ddod yn ddigartref; ond ni chafwyd sôn am hynny gan ddau draean ohonynt.

Yn arwyddocaol, roedd themâu cyffredin yn torri ar draws gwahaniaethau mewn oedran, rhyw a sefyllfa. Yn aml roedd achosion digartrefedd, y rhwystrau i adael digartrefedd a'r ymyraethau gafodd eu nodi fel rhai llwyddiannus yn debyg iawn i wahanol unigolion.

## Hyrwyddo arfer da

- Nodwyd fod casglu gwybodaeth gywir am wasanaethau digartrefedd yn hanfodol er mwyn datrys sefyllfaoedd digartrefedd. Gallai gwybodaeth ddiffygiol arwain at oedi mewn datrys y sefyllfa. Amlygir y pwysigrwydd i weithwyr y rheng flaen fod â gwybodaeth gyfredol a'r gallu i gyfeirio ymlaen. Mae gweithio ar y cyd yn cynyddu gwybodaeth am wasanaethau. Mae gadael sefydliadau yn bwynt allweddol ar gyfer cyflwyno gwybodaeth.

- Mae cael tŷ priodol wedi ei ddyrannu gan ddarparydd tai effeithiol yn elfen allweddol wrth ddatrys digartrefedd. Gall arfer gwael greu straen eithriadol a hyd yn oed achosi digartrefedd. Gall polisïau effeithiol ar ddyrannu, trwsio ac ymddygiad gwrthgymdeithasol atal digartrefedd.

- Pwysleisiodd cyfranogwyr werth cefnogaeth wrth eu galluogi i adael digartrefedd. Yn aml mae asiantaethau cefnogi yn darparu gwybodaeth yn ogystal â mynediad at dai. Roedd y gefnogaeth fwyaf llwyddiannus yn hyblyg, yn berson-ganolog, yn cael ei gyflwyno'n broffesiynol, ond gan rywun oedd y cael ei ystyried yn 'ffrind'. Roedd hyn yn awgrymu perthynas o gydraddoldeb, ymddiriedaeth a hygyrchedd. Yn yr astudiaeth hon roedd y rhan fwyaf o'r gefnogaeth hon yn cael ei darparu gan y sector gwirfoddol. Roedd cefnogaeth breswyl arbenigol megis y gefnogaeth sydd ar gael mewn canolfannau dadwenwyno neu iechyd meddwl, yn bwysig i rai cyfranogwyr.

- Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu'r gwerthoedd sydd wedi eu mewnosod mewn Adolygiadau Digartrefedd Lleol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd. Mae eryn dipyn o wybodaeth eisoes am yr ymyriodan sydd yn llwyddiannus, ond mae angen o hyd i'w gweithredu.

Mae'r adroddiad Hanesion Tai Pobl sydd wedi cael Profiad o Ddigartrefedd a chopïau pellach o'r crynodeb hwn ar gael oddi wrth:

Helen Wyatt
Uned Ymchwil a Gwybodaeth
Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD CF10 3NQ

Ffôn: (029) 20821718
E-bost: helen.wyatt@Wales.gsi.gov.uk
Gwefan: http://www.tai.cymru.gov.uk

ISBN 0 7504 3488 0 © Hawl y Goron 2004 Tachwedd 2004